# Cerdd Dannau

## Extract from an old Manss. of Sr. Wat. Wm. Wynn

Llyma Lyfr a elwir Cadwedigaeth Cerdd Dant, nid amgen Telyn a chrŵth, o fewn tair Talaith Gymru; yr hwn a dynnwyd o'r Miwsig wrth dymuniad pedwar prif gerddor o Delyn a chrwth, a meddwl ac athrylith pob un o honynt at eu gilydd, i wneuthur Cerdd ac i'w chadw yngháf, ac i'w chanu yn ei lle, ac i'w dosparthu. A henwau'r Pedwar Pencerdd yw, Allon y Cena Rhyderch Foel, Alatholwch Wyddel, ac Olaf gerddor. Ac yr oedd yn gwrando Henri Gyffeurhydd, a Charsi delynior a llawer ~~mall~~ a'u Cyngor ac o'u Celfyddyd gyd â hwynt. A thrwy gyngor yr athrawon hynny, a chelfyddyd y Doctor o'r Miwsig, a'r pedwar athro a'u celfyddyd, o gyd gyngor pob un at eu gilydd, y gwnaed y pedwar mesur ar hugain. Ac i sicrhâu y rhai hynny y gwnaed y pedwar Ddeifr ar hugain; O dri achos y gwnaed hwynt, y Cyntaf i wneuthur Cerdd, yr ail i adnabod Cerdd, a'r trydydd i dal Cerdd mewn côf, fel y mae eu henwau rhagllaw yn Jaith Wyddelig; a Mwrchan Wyddel oedd yn Arglwydd yn y Werddon yr amser hwnnw, ac a'u Conffirmiodd yn y man a elwir Glynn Achalch drwy ei holl allu a'i Swyddau, a gorchymyn ar bawb eu siccrio. Ac yn wir o bydd neb a wyppo dosparth y pedwar mesur ar hugain yn dilys ac yn ddidramgwydd, a dosparthu gamuth bob un at eu gilydd, nid dieithrach iddo glywed cam mewn Cerdd Dant nag i darllenwr da adael llythyren allan o'r sillaf, neu air o'r rhesum; ac felly mae'n dar gor. Dyweder bellach am Grychiadau a phlethiadau a chysylltiadau, a Thagiadau, ac Ystopiadau. Llyma'r achosion y mae y Cysylltiadau yn cael eu henw, o achos eu bod yn cysylltu Cowair dannau a Thyniadau. Llyma'r achos y cafas Tagiad ei henw, o herwydd ei fod yn stopio Cowair dant a Thyniad ryw amser pan del mewn Cerdd. Crychiadau sydd yn cyflawni rhwng Cowair dant a Thyniad, a lle safo'r bŷs y cyfrifir y Toleiadau sydd yn gwasanaethu yn lle Bwyadau, a'r Plethiadau yn teghâu rhwng Tyniada a Chowair Dannau, ac yn ymrafaelio bob un â'u gilydd, ac yn dosparthu.

Ac felly * * * * * * * * * * * *